



Nyrso Ysgol | School Nursing
BIP Caerdydd a'r Fro | Cardiff & Vale UHB

Ilinell rhieni

Os ydych yn rhiant neu'n ofalwr i blentyn 5-16 oed

Tecstiwch eich nyrs ysgol ar

07312 263178

Am gyngor a chymorth cyfrinachol

Bydd hwn yn wasanaeth testun i rieni gael mynediad at eu nyrs ysgol i helpu gydag ystod eang o broblemau iechyd. Ni fydd hwn yn wasanaeth diagnostig ond gallwn roi cyngor ar...



camddefnyddio sylweddau

CWSG gwlychu

diogelwch yn ystod
ar-lein

baeddu y dydd

glasoed a'r nos

cydberthnasau

lles emosiynol **bwlio**

ymddygiad **bwyta'n iach**

Efallai y byddwn yn rhoi gwybod i rywun os ydym yn pryderu am eich diogelwch, ond byddem fel arfer yn siarad â chi yn gyntaf. Caiff eich negeseuon eu storio a gall staff gofal iechyd eraill sy'n dilyn yr un rheolau cyfrinachedd eu gweld. Ein nod yw ymateb i chi o fewn un diwrnod gwaith a dylech gael neges ar unwaith i gadarnhau ein bod wedi derbyn eich neges destun. Ni fydd negeseuon testun yn cael eu gweld y tu allan i oriau gwaith arferol. Os oes angen help arnoch cyn i chi glywed gennym, cysylltwch â'ch meddyg teulu, y ganolfan galw heibio agosaf neu ffoniwch 111. Nid yw ein rhif testun yn derbyn galwadau llais na negeseuon llun MMS. Rydym yn cefnogi negeseuon o rifau ffôn symudol y DU yn unig (nad yw'n cynnwys negeseuon a anfonir o linellau tir, rhifau ffôn symudol rhyngwladol a rhai apiau 'cuddio rhifau' ar ffonau symudol). Er mwyn atal y gweithiwr iechyd proffesiynol rhag anfon negeseuon atoch, tecstiwch STOP i'n rhif. Codir tâl am negeseuon ar eich cyfraddau arferol.

 ChatHealth



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board